**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd 7:00 y.h. Nos Fawrth, 17 Rhagfyr 2019 yn Menter Fachwen, Cwm y Glo.</u>**

**<u>Presennol</u>:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Alan Pritchard, Martin Jones, Beca Brown, Gwion Llwyd.

**<u>Ymddiheuriadau</u>:** Y Cynghorwyr Hefin Jones, Richard Robinson, Iola Parry, Meirwen Lloyd, Haf Williams, Clifford Williams

**<u>Hefyd yn Bresennol:</u>** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**<u>Clerc:</u>** Meirion Jones

**535. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am eu presenoldeb.

**536. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**537. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**538. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 19 Tachwedd 2019**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**539. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Nodwyd fod rhai o'r materion ar agenda cyfarfod heno i'w trafod

**540. I ystyried cais i Gyngor Cymuned Llanrug brynu fewn i wasanaeth Cyngor Gwynedd i dorri gwair o flaen ystadau yn Llanrug.**

Nodwyd fod adroddiad eisoes wedi ei rannu i aelodau parthed y posibilrwydd o'r cyngor cymuned brynu fewn i wasanaeth torri gwair Cyngor Gwynedd ar gyfer torri gwair o flaen ystadau yn Llanrug. Mae hyn yn codi oherwydd i'r cyngor gael nifer o gwynion am gyflwr o flaen mynediad y ystadau. Adroddwyd ymhellach fod ein contractwr wedi bod yn torri rhai mannau ar liwt ei hyn.

Mae'r cyngor wedi derbyn pris gan Gyngor Gwynedd am wneud y gwaith.

Gofynnwyd os buasai yn bosib cael ychwanegu ystâd Dolafon i'r rhestr.

**Penderfynwyd:**

a) byddai cyngor cymuned Llanrug yn prynu fewn i wasanaeth torri gwair Cyngor Gwynedd ar gyfer 7 toriad y flwyddyn (gwasanaeth torri a casglu ar gyfer ystadau Minffordd, Nant y Glyn
b) Ychwanegu Ystâd Dolafon i'r rhestr ystadau i'w torri;
c) Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o'r penderfyniad

**541 I ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed y pileri concrit sydd wedi eu naddu lawr yn y maes parcio. Mae rhain yn achosi trafferth i rai sydd gyda problemau cerdded a gofynnir i'r cyngor ystyried eu lefelu.**

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn ar gyflwr mannau yn y maes parcio ble mae hoel concrit yn anesmwyth ac yn ei gwneud yn anodd a pheryglus i bobl sydd gyda problemau cerdded. Byddai yn bosib iddynt faglu.

**Penderfynwyd:** Cydnabod y gallai hyn achosi problemau a gofyn i'n contractwr os y gallai eu esmwytho

**542. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Cemlyn Jones ar gyfarfod llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Dim adroddiad – dim cyfarfod wedi bod

**543. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**Cyllideb Drafft**
**Llywodraeth Cymru**

Y cyllideb drafft wedi ei gyhoeddi gan Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd ddim yn saff faint fydd yn cael ei glustnodi i Lywodraeth Leol. Ond mae'n ymddengys eu bod yn rhoi mwy i'r Awdurdodau Iechyd eto. £150miliwn i 'r Adran Drafnidiaeth i hybu di carboneiddio, sydd yn swm newydd.

**Arbedion**

Y cyngor yn disgwyl fydd bwlch o rhwng £2filiwn a £7miliwn yn dilyn y setliad terfynol ac wedi penderfynu cyllidebu am £2miliwn o fwlch. Golygai hyn 0.78% oddi ar gyllideb pob Adran. Mae'r Adrannau wedi gwneud ei cynlluniau i ymateb i hwn. Os fydd y bwlch yn fwy na £2miliwn, yna fydd rhaid defnyddio balansau a/neu codi y treth Cyngor.

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019**

Y cabinet wedi bod yn cysidro eu ymateb i'r ymgynghoriad ar yr uchod heddiw, dim llawer o amser i ymateb dim ond tan 3 Ionawr.
Bydd y Bil:

- yn galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru i bleidleisio mewn etholiadau i gynghorau
- yn sicrhau bod cynghorau'n annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol
- yn sicrhau bod cynghorau'n agored ac yn dryloyw
- yn sicrhau bod yr arfau a'r pwerau gan gynghorau i'w galluogi i weithio'n dda gyda'i gilydd a chyda cynghorau eraill

**Adeilad Ysgol Cwm y Glo**

Mae'r Cyngor Sir yn dal i ddisgwyl am gadarnhad fod y Cyngor Cymuned yn fodlon rhoi fyny y lês.

**Casglu Sbwriel**

Tipyn bach o drafferth wedi bod hefo symud i'r rota newydd. Casgliadau bagiau du yn cael eu methu ar y ffordd gefn heibio tai Bryn Terrace. Mae nhw wedi trefnu eu casglu fory, ac fydd y casgliad nesaf ar 28 Rhagfyr, oherwydd fod y Nadolig ar y dydd Mercher.

**Llwybr aml bwrpas o Pontrug i Llanrug**

Bydd hwn yn rhan o gynllun mwy sef llwybr o Llanberis i Gaernarfon, rwyf wedi cael cyfarfod hefo swyddog y cyngor gyda'r gobaith o gael datrysiad i'r llwybr i gyd. Ond o bosib fydd gwneud y llwybr o Llanrug i Pontrug yn digwydd o flaen y darn o Pontrug i Gaernarfon. Bydd y llwybr yn mynd i lawr y briffordd o Llanrug i Bontrug.

**Parcio Cwm y Glo**

Ar ôl sgwrs hefo'r Cynghorydd Cemlyn Jones, wedi cael cyfarfod hefo swyddogion y Cyngor er mwyn lleihau y llinnellau melyn yn ymyl y cae chware er mwyn galluogi mwy o geir i barcio yn y pen yna o'r pentref.

**544. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Dim adroddiad ar gael

**545. I roi sylwadau ar gau ciosg ffôn sydd ger siop y 'Sbar' yn Llanrug**

Adroddwyd fod BT wedi cysylltu ac yn y broses ymgynghori, oherwydd eu bwriad oedd i gau ciosg teleffon ger y Sbar. Roedd ffigyrau wedi eu paratoi yn dynodi mae dim ond 14 galwad roedd wedi ei wneud o'r ciosg yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Penderfynwyd:** Penderfyniad y cyngor oedd i beidio gwrthwynebu cau'r ciosg oherwydd derbyniwyd ystadegau ar y nifer o alwadau (14) a wnaethpwyd o'r ciosg dros y 12 mis diwethaf, a'r ffaith fod pawb bron iawn heddiw gyda ffôn symudol, roedd siop Spar wrth ymyl ar agor tan 9:00 y nos ac roedd tai cyfagos, roedd yn ei gwneud yn anodd iawn i amddiffyn cadw'r ciosg ar agor.

**546. I gael diweddariad ar sefyllfa clwb ieuenctid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes fod i niferoedd sydd yn mynychu'r clwb ieuenctid yn parhau oddeutu 30 – 40 ac fod llawer o'r ieuenctid yn mwynhau defnyddio'r ystafell snwcer. Adroddwyd gan y Clerc ei fod yn y broses o geisio trefnu cyfarfod gyda swyddogion y Gwasanaeth ieuenctid parthed nifer o faterion ac y bydd hyn yn cael ei drefnu yn y flwyddyn newydd.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**547. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod o bwyllgor y fynwent a gynhaliwyd 4 Rhagfyr 2019**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod rhai o aelodau Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod yn y fynwent i bwrpas cario allan asesiad risg.

Adnabuwyd y canlynol angen sylw;

a) Arwyddion yn y Maes Parcio angen eu gosod fyny;
b) Nodwyd fod y llwybrau yn esmwyth ac yn glir o unrhyw anawsterau;
c) Nodwyd fod gap yn y ffens ac byddai yn bosib i wyn fynd drwyddo i fewn i'r fynwent;
d) Adnabuwyd fod rhai o'r polion ffens yn rhydd;
e) Adnabuwyd fod tyfiant yn dod dros y wal o fynwent yr Eglwys i fynwent cyngor ac fod angen ei dorri;
f) Penderfynwyd peidio a darparu grit oherwydd problemau ymarferol ynglŷn a'r waredu;

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a gofyn i'n contractwr gario allan y gwaith angenrheidiol a adnabuwyd ar yr asesiad risg.

**548. I drafod materion yn ymwneud a'r meysydd chwarae**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, fod cyfarfod wedi gynnal gyda cynrychiolydd o gwmni G L Jones ar gyfer symud ymlaen gyda cais am offer yn cae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo. Nodwyd fod y cynrychiolydd am anfon enghreifftiau.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a sefydlu cyfarfod gyda Rhian George o Gyngor Gwynedd.

**549. I gael diweddariad ar sefyllfa'r dendr ar gyfer cytundeb torri gwair.**

Adroddwyd gan y Clerc fod y tendr wedi mynd allan. Roedd ar wefan y cyngor, Eco'r Wyddfa a'r Caernarfon & Denbigh.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**550. I dderbyn sylwadau ar newyddlen y cyngor – i osod amserlen**

Nodwyd fod y cyngor eisoes wedi penderfynu ar gynhyrchu newyddlen ar gyfer ei ddosbarthu i dai oddi fewn i ardal y cyngor er hysbysu yr holl waith mae'r cyngor cymuned yn ei wneud. Mae cynhyrchu newyddlen yn un o'r camau i'r cyngor ennill statws gyda grym cymhwysedd. I'r perwyl hyn, byddai yn angenrheidiol cael rhaglen ar dyddiadau allweddol.

**Penderfynwyd:**

a) Dylid anfon unrhyw addasiadau neu ychwanegiad i'r clerc erbyn 4ydd o Ionawr 2020;
b) Gobeithir bydd y newyddlen yn cael ei rannu gan y Post Brenhinol o gwmpas yr 2ail o Fawrth 2020

**551. Ceisiadau Cynllunio**

Dim

**552. I ystyried a penderfynu ar gamau i'w cymryd ar gyfer sefyllfa traffig ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Ffordd Minffordd, Llanrug ac unrhyw ffordd arall sydd yn achosi pryder.**

Nodwyd fod nifer o gwynion wedi eu derbyn am sefyllfa traffig ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug gyda ceir yn gyrru, problemau gyda parcio sydd yn ei gwneud yn anodd i fysiau fynd basio.

**Penderfynwyd:**

a) Mae'r cyngor yn cydnabod fod problemau ar Ffordd yr Orsaf, ynghyd a Ffordd Minffordd a mannau eraill;

b) Trefnu cyfarfod cyhoeddus gan geisio cael presenoldeb swyddogion o Gyngor Gwynedd, yr Heddlu yn y cyfarfod

**553. I ystyried cais a phenderfynu ar y ffordd ymlaen i ymdrin a cais Eisteddfod parthed targed ardal Llanrug ar gyfer Eisteddfod 2021.**

Adroddwyd fod hysbysiad wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Eisteddfod 2021 yn sefydlu targed i ardal Llanrug godi arian o £5,000.

**Penderfynwyd:** I aelodau'r cyngor geisio cysylltu ac aelodau o'r cyhoedd a fyddai a diddordeb mewn sefydlu pwyllgor ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**554. Cyfeiriadau e-bost cynghorwyr – diweddariad**

Adroddwyd fod y Cynghorydd Cemlyn Jones ynghyd a'r Clerc wedi mynychu sesiwn o hyfforddiant ar gyfer sefydlu cyfeiriad e byst i aelodau. Nodwyd fod yn angenrheidiol i aelodau sydd gyda cyfeiriad e bost fod yn gallu ei ddefnyddio oherwydd bydd y cyfeiriad e bost yma yn mynd allan ar y newyddlen.

**Penderfynwyd:** Mae'r Cynghorydd Cemlyn Jones yn fodlon cynnal sesiwn ar y 9fed o Ionawr 2020 i sefydlu'r e bost ar ddyfeisiadau am 7:00 y.h

**555. Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig – Cwm y Glo**

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**Mater ddim ar yr agenda sydd yn ymwneud a materion gweithrediad y cyngor**

Mae eisoes cais wedi mynd ger bron am aelodau i ymuno a'r Pwyllgor Cyllid. Mae tri enw wedi dod ymlaen ac fe gytunwyd i ethol y tri fel aelodau o'r Pwyllgor Cyllid;

Y Cynghorydd Martin Jones
Y Cynghorydd Alan Pritchard
Y Cynghorydd Gwion Llwyd

Daeth y cyfarfod i ben am 20:45

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: